# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_06_03_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Minister for Health and Social Services**<br>**Mark Osland, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru**<br>**Val Whiting, Llywodraeth Cymru**<br>**Edwina Hart, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Minister for Business, Enterprise, Technology and Science**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**<br>**Tim Howard, Llywodraeth Cymru**<br>**Chris Sutton, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Kerry Dearden (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

## 3. Craffu ariannol ar ddeddfwriaeth

3.1 Trafododd y Pwyllgor y gwaith o graffu ariannol ar ddeddfwriaeth a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog / Aelod sy'n gyfrifol ac at Gadeirydd y Pwyllgor i sicrhau bod diwydrwydd digonol yn cael ei roi i'r gwaith o graffu ariannol ar Fil unigol.

## 4. Cyllido Addysg Uwch

4.1 Trafododd y Pwyllgor gwmpas ymchwiliad posibl i Addysg Uwch yng Nghymru a chytunodd i ystyried papur opsiynau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5. Rheoli asedau - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Mark Osland, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yr Adran Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; a Val Whiting, Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i'r cyfarfod.

5.2 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth ynghylch trosglwyddo'r £35m o gyfalaf i refeniw a natur y prosiectau dan sylw a oedd yn hwyluso trosglwyddo'r arian hwn.
- Rhagor o wybodaeth am y prosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i wella trefniadau cydweithredu ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.
- Copi o ganllawiau Cod Ystadau..
- Nodyn ar y gwahaniaethau o ran y driniaeth gyfreithiol / ariannol o drosglwyddo tir yn y GIG yn wahanol i sectorau eraill.

## 6. Rheoli asedau - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Chris Sutton, Aelod o Fwrdd Parth Menter Canol Caerdydd ac Aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes; a Tim Howard, Pennaeth Eiddo, Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'r Cyfarfod.

6.2 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog.

## 7. Papurau i'w nodi

7.1 Nododd y pwyllgor y llythyr gan y Cadeirydd ynghylch adroddiad alldro 2012 a'r ymateb gan y Gweinidog Cyllid; ymateb Llywodraeth Cymru i gamau gweithredu o'r

cyfarfod ar 30 Ioanwr 2013; a’r Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor ar yr Amcangyfrif Atodol.

## 8. Ystyried y dystiolaeth - Rheoli asedau

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ar ei ymchwliad i Reoli Asedau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.